Erbyn dechrau 2016, roedd pob gwleidydd ac ymgeisydd yng Nghymru a oedd yn paratoi at yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi derbyn, neu wedi cael modd mynd at, gopiau o adroddiad cynhwysfawr RSPCA Cymru o'r enw Materion ar gyfer y Pumed Cynulliad. Roeddym yn falch iawn o weld nifer o'r pynciau yn yr adroddiad hwnnw wedi'u troi yn ymrwymiadau manifesto gan wleidyddion a phleidau gwleidyddol. Ailddechreuodd gwahanol ymgyrchoedd yr RSPCA ar les anifeiliaid ar ôl diwedd yr etholiad ym mis Mai, gan gynnwys ymgyrch newydd yn galw am waharddiad i'r broblem guddiedig o bobl yn cadw primatiaid fel anifeiliaid anwes.

Roedd datblygiadau mewn deddfwriaeth yn ystod y flwyddyn yn cynnwys yr orfodaeth hirddisgwylledig i osod microsglodion ar gŵn, a hynny wedi dechrau ym mis Ebrill. Bu'r RSPCA ar flaen y gad yn hyrwyddo'r ymgyrch hon ers dros ddau ddegawd, ond hyd yn oed gyda'r llwyddiant hwn, mae mwy o waith i'w wneud i ddarbwyllo Llywodraeth Cymru fod angen cofrestru neu drwyddedu gorfodol ar gŵn er mwyn sicrhau eu lles a datblygu perchnogaeth gyfrifol ar gŵn yn ein cymdeithas. Hefyd yn hanfodol wrth annog perchnogaeth gyfrifol ar anifeiliaid anwes ac anifeiliaid yw'r codau ymarfer ar gyfer gwahanol rywogaethau. Yn ystod 2016 gweithiodd RSPCA Cymru gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid o'r sector lles anifeiliaid i adolygu'r codau ar gyfer cŵn, cathod a cheffylau, yn ogystal â chodau fferm ar gyfer ieir dodwy, moch ac ieir wedi'u magu ar gyfer cig. Rydym yn edrych ymlaen i'r gwaith hwn gael ei ddatblygu yn 2017.

Bydd digwyddiadau gwleidyddol 2016 yn ddi-os yn cael effaith ar les anifeiliaid, yn enwedig y refferendwm ar aelodaeth Prydain yn yr Undeb Ewropeaidd (UE), gan fod yr amodau a'r safonau gofal cyfreithiol, yn enwedig ar gyfer anifeiliaid fferm, yn dod o'r UE. Mae RSPCA Cymru eisoes yn gweithio i sicrhau y caiff lles pob anifail ei gadw ac y manteisir cymaint ag y bo modd ar unrhyw gylleoedd i wella bywydau anifeiliaid pan fydd Prydain yn gadael yr UE.

Hoffem ddiolch i'n holl gefnogwyr gwych yng Nghymru am ein helpu i barhau â'n gwaith yn gwarchod anifeiliaid. Chi sy'n gwneud yr hyn a wnawn yn bosibl.

Paul Baxter  
Cadeirydd RSPCA Cymru  
Ymddiriedolwr Cyngor yr RSPCA

<sup>1</sup> Daw'r ffigyrâu o YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,103 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 10 a 13 Ionawr 2017. Cynhalwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrâu wedi cael eu pwysoli ac maent yn (wleidyddol) gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

# Ar y rheng flaen dros anifeiliaid


**Ar alwad i anifeiliaid.** Mae RSPCA Cymru yn gweithio bob awr o'r dydd i amddiffyn, adsefydu a gofalu am anifeiliaid y wlad. Mae arolygwyr yr RSPCA, swyddogion lles anifeiliaid a swyddogion casglu anifeiliaid yn ymateb ar y rheng flaen i sefyllfaedd brys ym mhob cwr o Gymru: 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r swyddogion hyn yn cyflawni swyddogaethau unigryw, ond sydd eto'n cyd-blethu, gan fod yn achubiaeth i anifeiliaid mewn angen.

Yng Nghymru, cafodd 7,642 o anifeiliaid eu casglu a'u hachub gan yr elusen yn ystod 2016, gan ganfod cartrefi newydd i 1,856 o anifeiliaid. Caiff llawer o anifeiliaid a achubir – yn enwedig bywyd gwylt – eu hadsefydu ac yna eu dychwelyd i'w cynefin; tra caiff eraill, gan gynnwys anifeiliaid fferm, yn aml eu dychwelyd at eu perchnogion.

Trwy gydol 2016 gweithiodd ein swyddogion ar nifer o ymchwiliadau a sefyllfaedd achub cymhleth a heriol, gan ddelio ag anifeiliaid yn dioddef ar ôl cael eu gadael, eu hesgeuluso, neu eu trin yn greulon. Mae'r RSPCA yn derbyn tua 50,000 o alwadau o Gymru bob blwyddyn – sy'n cyfateb i adrodd am anifail mewn angen bob 10 munud.

Roedd 2016 unwaith eto wedi dangos natur amrywiol ac anrhagweladwy y gwaith a wneir gan swyddogion yr RSPCA ac yn aml ygu'r sgiliau unigryw, yr ymrwymiad a'r ymroddiad sydd eu hangen arnynt bob dydd i sicrhau diogelwch pob math o rywogaethau – boed yn anifeiliaid anwes, yn anifeiliaid fferm neu'n fywyd gwylt.

**7,642**  
o anifeiliaid  
wedi'u casglu  
a'u hachub yn  
2016



## Cydweithio â'r gwasanaethau brys

Mae pob arolygydd yr RSPCA yn cael hyfforddiant sylfaenol mewn sefyllfa llifogydd gyda thîm arbenigol sydd wedi'u hyffordddi mewn achub o ddŵr cyflym. Roedd RSPCA Cymru yn falch o gymryd rhan yn Ymarfer Polygon, sef ymarfer hyfforddi amlasiantaeth a oedd yn efelychu digwyddiad llifogydd difrifol yng Nghymru. Roedd RSPCA Cymru hefyd yn rhan o Ymarfer Alveus a gynhalwyd gan Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gwent, o ran pa gymorth y gallai'r RSPCA ei gynnig pe byddai argae yn torri yn yr ardal.

## Achub gwylan o sbwriel pysgota Conwy

Mae'n rhaid i'r RSPCA fod yn barod i ddelio â llu o rywogaethau a mathau o sefyllfaoedd gwahanol. Mae materion lles sy'n gysylltiedig â bywyd gwylt, yn enwedig, yn aml yn creu senarios unigryw a heriol i arolygwyr yr RSPCA. Yn anffodus, mae peryglon sbwriel pysgota i'w gweld yn rheolaidd ar y rheng flaen. Daethwyd o hyd i wylan gefnddu ifanc mewn trafferthion yng Nghonwy, gyda lein bysgota wedi'i lapio amdani, yn ei hatal rhag hedfan. Roedd yr wylan hefyd yn cael trafferth â bachyn pysgota oedd wedi'i ddal yn ei phig; yn anffodus dyma ddigwyddiad sy'n nodwediadol o'r peryglon y mae sbwriel pysgota yn ei achosi i fywyd gwylt Cymru. Roedd yr wylan wedi llwyr ymladd, ac ar ôl i'r lein bysgota a'r bachyn gael eu tynnu oddi arni, treuliodd ychydig amser yn gwella yng ngofal RSPCA Cymru.



## Achub cath fach frenhinol yng Nghastell Penfro

Yn aml, diogelu a helpu anifeiliaid anwes – megis cathod, cŵn a chwningod – yw'r gwaith a gysylltir fwyaf â'r RSPCA. Roedd 2016 yn flwyddyn arall lle cynigiodd yr RSPCA achubiaeth i anifeiliaid anwes y wlad; gan ymatebi nifer fawr o sefyllfaoedd achub amrywiol, anifeiliaid anwes wedi'u hanafu a materion lles dirrifol. Gall sefyllfa achub ddigwydd yn y lleoliadau mwyaf annhebygol ac, ym mis Hydref, achubwyd cath fach ofnus ar ôl mynd yn soudn 15 metr i fyny wal y castell yng Nghastell Penfro. Gwelwyd y gath fach yn stryffaglu ar y wal, yn crafangu yn y llystyfiant. Gweithiodd RSPCA Cymru gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i dynnu'r gath fach anturus i lawr yn ddiogel. Rhoddyd y llysenw Henry ar y gath fach, ar ôl Harri VII a aned ar y safle, a rheolwr y castell canoloesol yn nodi y credid mai dyma'r digwyddiad cyntaf o'i fath!

## Rhyddhau dafad ddydd Nadolig

Mae dros 17 miliwn o anifeiliaid fferm yn byw yng Nghymru, ac mae'r RSPCA yn gweithio i wella eu lles ar bob cam o'u bywydau – gan gynnwys ar y rheng flaen. Mae'r RSPCA wrth law bob dydd o'r flwyddyn – gan gynnwys dydd Nadolig! Tra oedd llawer o bobl ledled Cymru yn mwynhau eu cinio Nadolig, roedd arolygydd yr RSPCA wrthi'n achub mamog a oedd wedi mynd yn soudn mewn weiren bigog mewn gwrych ger Abertawe. Roedd y ddafad yn amlwg yn ofnus ac yn aflonydd ond cafodd ei rhyddhau yn ofalus â thorwyr gwifren, a dychwelodd i ymuno'n llawen â gweddill diadell y Nadolig!

# Atal creulondeb ac amddiffyn anifeiliaid

**Yn llym ar drosedd.** Parhau wnaeth prif ffocws RSPCA Cymru trwy gydol 2016 ar atal creulondeb i anifeiliaid rhag digwydd ac addysgu pobl yngylch eu cyfrifoldebau tuag at les anifeiliaid. Yn 2016, rhoddodd yr elusen 7,119 o hysbysiadau lles a rhybuddio, **cynnydd o 23 y cant ers 2015**. Fodd bynnag, ar adegau, erlyn yw'r unig ddewis er mwyn diogelu anifeiliaid yn ogystal â cheisio sicrhau nad yw'r rheiny sy'n achosi creulondeb drwy esgeulustod yn gallu gwneud hynny eto.

Gwelwyd natur amrywiol iawn gweithgarwch erlyn RSPCA Cymru yn 2016 yn diogelu nifer o rywogaethau gwahanol drwy ddefnyddio deddfwriaeth lles anifeiliaid – gan gynnwys cŵn, eryr aur a cheffylau. Ar draws Cymru, sicrhawyd 120 o euogfarnau mewn llysoedd ynaden, yn ymwneud â 61 o ddiffynyddion, sef y nifer uchaf o euogfarnau yng Nghymru ers 2013. Roedd y cosbau a roddwyd yn cynnwys dedfrydau carchar, dedfrydau carchar wedi'u gohiriad ar gadw anifeiliaid. Mae engrheiftiau pellach o'r 120 euogfarn a sicrhawyd gan RSPCA Cymru yn ystod 2016 i'w gweld yn Adroddiad Erlyniadau 2016 yr RSPCA<sup>2</sup>. Yn 2016, ymchwiliodd yr RSPCA hefyd i 10,540 o gŵynion o greulondeb yng Nghymru.

**Yn 2016 ymchwiliom i 10,540 o gŵynion am greulondeb, gan fod yn llwyddiannus wrth weithredu 7,119 o hysbysiadau gwella a lles i atal dioddefaint.**




## Yr hysgwn "teneuaf" erioed


Cafodd cwpl o Gwmbrân eu gwahardd rhag cadw cŵn am ddwy flynedd ar ôl iddynt adael i bedwar hysgi fod "y teneuaf" a welodd Arolygydd yr RSPCA erioed. Rhoddwyd gorchymyn cymunedol o 12 mis o 100 awr o waith di-dâl hefyd i'r ddau ddiffynydd. Yn ogystal, gorchymynnwyd y ddau i dalu £360 mewn costau a £85 o ordal dioddefwr. Roedd Arolygydd yr RSPCA Sophie Daniels wedi canfod pedwar hysgi – o'r enw Cloud, Diesel, Delta ac Asher – mewn cyflwr hynod denau, a'u hesgyrn i'w gweld yn amlwg drwy eu cotiau.

Ar ôl eu trosglwyddo i ofal yr RSPCA bu i gyflwr y cŵn wella'n ddifawr, a hynny dim ond drwy roi'r gofal priodol iddynt. Maes o law daeth un o'r cŵn – Diesel – yn seren ffilm RSPCA Cymru yn dathlu 10 mlynedd cyntaf y Ddeddf Lles Anifeiliaid. Daethpwyd o hyd i gartref newydd cariadus i bob un o'r hysgwn.

## Cyfanswm nifer yr euogfarnau yn 2015




## Cyfanswm nifer yr euogfarnau yn 2016



## Eryr aur mewn amodau aflan

Aeth RSPCA Cymru at i weithredu ar ôl dod o hyd i eryr aur yn cael ei gadw mewn amodau erchyll mewn cegin frwnt ym Mhenfro. Roedd yr aderyn wedi'i glymu i strap taflhual byr, ac wedi'i amgylchynu gan fwyd wedi llwydo, gwydr wedi torri, sbwriel y cartref, potel wisgi a thwmpathau o ysgarthion. Disgrifiwyd y sefyllfa yn un "tu hwnt i amgyffred" gan arolygydd anghrediniol yr RSPCA. Cafodd y diffynnydd ei wahardd rhag cadw anifeiliaid am 10 mlynedd, ei ddirwyo a chael gorchymyn cymunedol am 12 mis. Mae gan eryr aur anghenion cymhleth ac arbenigol iawn – a'r methiant i ddiwallu'r anghenion hynny oedd ffocws yr erlyniad. Mae'r aderyn bellach yn gwneud yn dda mewn canolfan arbenigol.



## Cŵn â'r cyflwr croen gwaethaf


Sylw a wnaed gan un o arolygwyr yr RSPCA yn 2016 oedd nad oedd hi "erioed wedi gweld" cyflwr croen gwaeth ar gi, wrth i ddua o Ferthyr gael eu gwahardd rhag cadw anifeiliaid am bum mlynedd ar ôl cyfaddef achosi dioddefaint diangen i gi. Cyrhaeddodd yr RSPCA eiddo i ddod o hyd i fath o gi defaid wedi colli cryn dipyn o'i flew, ei ewinedd wedi gordyfu a chwain arno. Roedd croen y ci hefyd yn boeth i'w gyffwrdd. Roedd yn dioddef o alergedd chwain, dermatitis, haint eilaidd a haint ar y glust. Yn ychwanegol at y gwaharddiad, rhoddywyd gorchymyn cymunedol o 12 mis yr un i'r diffynnyddion gyda 140 awr o waith di-dâl, dirwy o £300, a £85 o ordal dioddefwr.




## Rhoi cocêñ i gi a rhwygo'i glustiau

Cafodd dyn o Wrecsam ei anfon i'r carchar yn 2016 ar ôl rhoi cocêñ i ddaeargi tarw Stafford a thorri clustiau'r anifail i ffwrdd yn greulon â gefail – dyma'r weithred fwyaf syfrdanol o greulondeb y gweleodd yr RSPCA yn ystod y flwyddyn galendr hon. Gwelwyd ci mewn safnrwym yn cael ei ddal yn sownd i'r llawr gan y dyn cyn iddo dorri clustiau'r ci i ffwrdd. Cafodd cocêñ ei ganfod yn system Victor, yn dilyn archwiliad milfeddygol. Cyrhaeddodd RSPCA Cymru i ganfod clwyfau'r ci yn gwaedu'n drwm ac yn cael eu llyfu gan gi arall. Rhoddywyd dedfryd o 24 wythnos yn y carchar i'r diffynnydd a'i wahardd rhag cadw cŵn am 10 mlynedd yn ogystal â chael gorchymyn prawf o 12 mis.

## Diffynnyddion wedi'u cael yn euog yn 2015



## Diffynnyddion wedi'u cael yn euog yn 2016



# Cylch cyflawn ein gofal

**Paratoi at fywyd newydd.** Ein blaenoriaeth yw dod o hyd i lefydd addas sy'n gallu diwallu anghenion yr holl anifeiliaid sy'n dod i'n gofal. Daw'r rhan fwyaf o'r anifeiliaid atom drwy Arolygwyr yr RSPCA ac felly dyma'r anifeiliaid sydd â'r angen pennaf o ran eu lles. Rydym yn darparu gofal milfeddygol, cymorth ag ymddygiad ac adsefydlu er mwyn adfer iechyd ac adennill ffydd rhai o'r anifeiliaid sydd wedi cael eu trin waethaf. Ledled Cymru mae ein clinigau milfeddygol, canolfannau anifeiliaid, canolfan fabwysiadu, canghennau a swyddog ailgartrefu cefylau yn gweithio'n ddiflino i roi gofal arbenigol i baratoi ein hanifeiliaid ar gyfer eu bywydau newydd.

Yn 2016 fe wnaeth yr RSPCA ledled Cymru gyfan ysbaddu dros **9,000** o anifeiliaid



## Aduno drwy bŵer y cyfryngau cymdeithasol

Dangoswyd yn glir bŵer y cyfryngau cymdeithasol fel cyfrwng defnyddiol ym myd lles anifeiliaid ym mis Tachwedd, ar ôl i RSPCA Cymru gasglu cath strae drilliw wedi'i hanafu. Cafodd y gath ei chanfod yn cerdded ar dair coes ac angen gofal milfeddygol yn y Sychdyn, yng nghyffiniau'r Wyddgrug. Nid oedd gan y gath ficrosglodyn, felly bu raid i RSPCA Cymru ddefnyddio sawl ffordd o geisio aduno'r gath â'i perchnogion. Ar ôl 10 wythnos ar wahân, yn rhyfeddol sylwedd y perchnogion ar bostiad am y gath ar Facebook, a daethant i'w nôl. Mae'r stori hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd gosod microsglodyn er mwyn aduno anifeiliaid anwes sydd ar goll gyda'u teuluoedd.

## Adfer ac ailgartrefu

Ar ôl derbyn unrhyw driniaeth filfeddygol brys sydd eu hangen arnynt, mae llawer o anifeiliaid wedyn angen lle diogel i wella a pharatoi at eu bywyd newydd. Yng Nghymru rydym yn cynnig cyfuniad o lefydd mewn canolfannau anifeiliaid, maethu, a llety preifat i ddiwallu anghenion achub, adfer ac ailgartrefu ein hanifeiliaid.

Mae dwy ganolfan anifeiliaid gan yr RSPCA yng Nghymru, sef un ym Mryn-y-Maen, ger Bae Colwyn, ac un yng Nghasnewydd yn y de – yn ogystal â chanolfan fabwysiadu'r RSPCA sydd wedi'i lleoli yn Pets At Home yng Nghasnewydd. Mae'r canolfannau hyn yn blaenoriaethu adsefydlu ac ailgartrefu anifeiliaid y mae arolygwyr yr RSPCA wedi eu codi ac maent wedi'u rhedeg gan staff sydd ag arbenigedd ym maes lles ac ymddygiad er mwyn diwallu anghenion penodol anifeiliaid wedi'u hachub. I gael rhagor o wybodaeth am eu gwaith, ewch i:

Y Gogledd - canolfan anifeiliaid Bryn-y-Maen [www.rspca.org.uk/local/bryn-y-maen-animal-centre](http://www.rspca.org.uk/local/bryn-y-maen-animal-centre)

Y De - canolfan anifeiliaid Casnewydd [www.rspca.org.uk/local/newport-animal-centre](http://www.rspca.org.uk/local/newport-animal-centre)

Y De - canolfan fabwysiadu Pets At Home Casnewydd [www.rspca.org.uk/local/newport-animal-adoption-centre](http://www.rspca.org.uk/local/newport-animal-adoption-centre)

Cawn hefyd gefnogaeth rhwydwaith o 14 o ganghennau'r RSPCA ledled Cymru. Mae'r ganghennau yn elusennau cofrestredig ar wahân sydd wedi'u rhedeg yn bennaf gan wirfoddolwyr. Mae pob cangen yn gweithredu yn lleol ac yn cynnig ystod eang o wasanaethau lles anifeiliaid. I gael manylion am eich cangen leol ewch i: [www.rspca.org.uk/whatwedo/yourlocal](http://www.rspca.org.uk/whatwedo/yourlocal)

Yn 2016, bu i ganghennau a chanolfannau anifeiliaid yr RSPCA ailgartrefu dros 1,800 o anifeiliaid.

## Llefydd brys

Nid ydym byth yn gwybod pryd y bydd anifeiliaid yn dod i'n gofal ac weithiau bydd brys annisgwyl i symud anifeiliaid o amodau ofnadwy. Yn y sefyllfaoedd hyn, rydym weithiau'n gorfol defnyddio llety argyfwng hyd nes y gallwn ddod o hyd i lefydd adsefydlu ac aillgartrefu parhaol. Yn 2016 cydweithiodd canghennau'r RSPCA yng Nghymru i ddarparu mwy na 7,600 o ddiwrnodau o lety brys i anifeiliaid mewn angen.

## Ceffylau

Daeth mwy na 100 o geffylau, asynnod a merlod ledled Cymru i'n gofal yn 2016, a hynny oherwydd rhesymau gwahanol megis anafiau o benffrwynau, newyn, clwyfau heb eu trin, neu berchnogaeth anghyfrifol.

Mae'n aml yn cymryd cyfnod hir o ofal arbenigol i baratoi'r ceffylau hyn sydd wedi'u cam-drin ar gyfer eu cartrefi newydd, yn enwedig gan fod llawer yn dod atom ar fin bwrw ebol neu eisoes gydag ebolion ifanc.

Mae ein gofalwyr ceffylau arbenigol yn helpu i adfer eu hiechyd ac adenodd eu ffydd cyn eu paru â'r cartrefi newydd gorau er mwyn sicrhau nad ydynt byth yn gorfol dioddef esgeulustod a chreulondeb eto.

## Cymorth lles yn y gymuned

Yn ogystal ag adsefydlu ac aillgartrefu anifeiliaid y mae arolygwyr yr RSPCA wedi eu trosglwyddo i ni, rydym eisiau helpu i atal rhagor o anifeiliaid rhag angen dod i'n gofal o gwbl.

Mae **ysbaddu** a microsglodyn yn hollbwysig i leihau nifer yr anifeiliaid nad oes neb eu heisiau, helpu i atal salwch a lleihau ymladd, yn ogystal ag i aduno anifeiliaid sydd ar goll â'u perchnogion. Yng Nghymru daw arolygwyr yr RSPCA ar draws llawer o anifeiliaid sydd ar goll ac wedi'u hanafu, yn ogystal â thorllwythi o rai bach nad oes neb eu heisiau a neb yn malio amdanynt, yn enwedig cathod. Roeddem felly yn falch o gyflwyno Menter Ysbaddu a Microsglodyn Cathod Cymru ar y cyd â Cats Protection yn 2016. Ymunodd mwy na 100 o filfeddygon ledled Cymru yn y cynllun a gall perchnogion sy'n gymwys gael eu cath wedi'i hysbaddu a gosod microsglodyn arni am £5 yn unig. Diogelodd mwy na 6,000 o berchnogion eu cathod drwy ddefnyddio'r cynnig hwn yn 2016.

Yn ogystal â'r cynllun hwn, cafodd mwy na 3,000 o anifeiliaid eraill eu hysbaddu â'u microsglodyn gan ganghennau a chyfleusterau'r RSPCA yn 2016.

## Gofal milfeddygol

Mae gennym glinig milfeddygol pwrrpasol ym Merthyr Tudful a nifer o glinigau lles wedi'u rhedeg gan ein canghennau, gan gynnwys clinig symudol sy'n ymweld â safleoedd ledled y Gogledd. Rydym yn ffodus hefyd ein bod yn gallu gweithio â nifer o filfeddygfeydd preifat cefnogol iawn ledled Cymru. Mae'r cyfleusterau milfeddygol hyn yn rhoi triniaeth frys a gofal parhaus i anifeiliaid sâl neu wedi'u hanafu sydd wedi'u hachub gan arolygwyr yr RSPCA ac i anifeiliaid anwes mewn angen sydd â perchnogion cymwys.

**Yn 2016 rhoddodd clinig Merthyr Tudful a changhennau'r RSPCA yng Nghymru fwy na 13,700 o driniaethau lles i anifeiliaid mewn angen.**



# Addysg i atal

Wrth wraidd enw'r RSPCA mae'r gair 'Atal' a thrwy addysgu pobl ifanc am anghenion anifeiliaid a'r cyfrifoldebau sydd gennym fel pobl drostynt, rydym yn credu y gallwn helpu i atal creulondeb rhag digwydd yn y dyfodol. Yn nhîm addysg yr RSPCA rydym yn cynnig hyfforddiant a chyngor i'n helpu i ledaenu'r neges am les anifeiliaid.

Mae gan yr hyfforddiant athrawon yr ydym wedi'i wneud eleni y potensial i gyrraedd **75,500** o ddisgyblion<sup>3</sup>



## Athrawon

Yn 2016 cynhaliom weithdai rhwngweithiol i 151 o athrawon dan hyfforddiant ym Mhrifysgol Ffropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru i ddangos pwysigrwydd addysgu plant am anghenion anifeiliaid a rhoi syniadau ac adnoddau iddynt eu defnyddio yn eu haddysgu yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn i'r cwrs Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn rhan allweddol o'n strategaeth addysg, ac yn ein galluogi i sicrhau bod negeseuon pwysig am ymdeimladoldeb anifeiliaid, ac am gyfrifoldeb pobl i ddiwallu anghenion anifeiliaid, yn parhau i gael eu trosglwyddo i blant yn yr ysgolion. Caiff y sesiynau hyn dderbyniad da iawn gan fyfyrwyr bob amser, yn ôl yr adborth cadarnhaol, ac fe'u hystyrir yn elfennau pwysig o'r cyrsiau gan diwtoriaid.

*"Roedd y sesiwn hon yn ddefnyddiol iawn ac wedi rhoi llawer o syniadau ynghyllch sut i addysgu pynciau. Fyddai'r wefan chwaith wedi bod yn un y byddwn wedi edrych arni cyn hynny wrth chwilio am adnoddau."*

Myfyriwr TAR Cynradd, Prifysgol Ffropolitan Caerdydd

*"Teimlais fod y sesiwn hyfforddi yma yn ddefnyddiol oherwydd rwyf nawr yn deall pa mor bwysig yw rhoi gwybod i blant sut i ofalu yn iawn am anifeiliaid. Mae wedi rhoi syniadau i mi am wersi y gallwn eu dysgu."*

Myfyriwr BA y Flwyddyn 1af, Prifysgol De Cymru

<sup>3</sup> Cyfrifiad sy'n seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd pob athro/athrawes yn addysgu 25 o ddisgyblion y flwyddyn dros yrfa o 20 mlynedd.

## Gofalwyr maeth

Mae ein gwaith gyda gofalwyr maeth plant wedi codi yn sgil amryw o geisiadau gan dimau ac asiantaethau maethu yn ystod y blynyddoedd yn gofyn am help i gefnogi eu gofalwyr. Mae llawer o blant yn y system maethu angen cryn dipyn o gymorth i ddatblygu sgiliau empathi tuag at bobl ac anifeiliaid oherwydd eu profiadau personol, ac mae rhai wedi dangos ymddygiad pryderus o gwmpas anifeiliaid sy'n eu gwneud yn anodd eu gosod gyda theuluoedd. Yn 2016, cynhaliom ddu a weithdy, un yn Abertawe ac un yng Nghaerdydd, yn dangos ffyrrd y gallai gofalwyr helpu plant i ddatblygu sgiliau empathi i weld anifeiliaid fel bodau sy'n teimlo ac sydd ag anghenion, yn ogystal â ffyrrd o ddysgu plant i ryngweithio'n briodol ac yn ddiogel ag anifeiliaid yn y cartref.

## Digwyddiadau addysgol

Yn 2016 cynhaliom ddigwyddiad Dadl Fawr ar gyfer myfyrwyr 11-14 oed, gan adeiladu ar lwyddiant y flwyddyn flaenorol. Roedd pum ysgol uwchradd o Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Caerdydd a Bro Morgannwg wedi cymryd rhan ac unwaith eto roeddent wedi trin a thraffod y cwestiwn 'Pwy sy'n gyfrifol am les anifeiliaid?'. Gan gyflwyno achosion dros gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, yr heddlu, awdurdodau lleol, milfeddygon, yr

RSPCA a'r cyhoedd, pleidleisiodd y myfyrwyr dros bwy y credent sydd â'r cyfrifoldeb pennaf, ac, yn ddiddorol, y canlyniad am yr ail flwyddyn yn olynol oedd mai'r cyhoedd sydd â chyfrifoldeb. Roedd y myfyrwyr wedi gwneud llawer iawn o ymchwil gwych i baratoi eu hachosion ac roedd safon yr areithiau unwaith eto wedi creu argraff fawr.

Roedd ymwelliad â'r Senedd wedi'i drefnu yn rhan o'r diwrnod, er mwyn i'r myfyrwyr fedru gweld drostynt eu hunain ble y gwneir penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd. Ar ôl cinio, cawsant hefyd wahoddiad i gymryd rhan mewn Sesiwn Holi, gan roi eu cwestiynau eu hunain am les anifeiliaid gerbron panel o arbenigwyr, yn cynnwys Cymdeithas Milfeddygol Prydain, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Arolygwyr yr RSPCA a Chomisiynydd Heddlu a Throedd De Cymru.

Cysylltodd ysgol uwchradd yn Rhondda Cynon Taf ym mis Hydref yn gofyn inni roi cymorth i grŵp o fyfyrwyr Bagloriaeth Cymru a oedd wedi dweud bod esgeuluso anifeiliaid yn broblem y dymunent fynd i'r afael â hi yn eu cymuned. Roeddent wedi penderfynu cynnal rhoi sesiynau hyfforddi gyda myfyrwyr Blwyddyn 7 eu hysgol er mwyn gwneud hyn. Cyfarfu aelod o'n tîm addysg â'r myfyrwyr i roi cyngor am weithgareddau ac adnoddau y gellid eu defnyddio ac ar adeg mynd i'r wasg rydym yn aros yn eiddgar am newyddion ynghylch sut aeth hynny.

## Cyfranogwyr Dadl Fawr 2016, yn y Cynulliad Cenedlaethol, gyda Matt Lissack o Capital FM



# Rhoi llais i anifeiliaid yn 2016

Bydd digwyddiadau gwleidyddol 2016 yn effeithio ar ddyfodol lles anifeiliaid yng Nghymru. Bydd RSPCA Cymru yn parhau i fod yn llais cryf dros anifeiliaid i wleidyddion a gwneuthurwyr penderfyniadau, gan sicrhau

bod y miloedd o weithredodd a wneir gan gefnogwyr RSPCA Cymru yn cael eu clywed a bod lles anifeiliaid yn parhau i fod yn flaenoriaeth i lywodraethau, sefydliadau a phobl ledled Cymru.



## Ymgyrchu

Rydym wedi mynd â'n hymgyrchoedd i fwy o ddigwyddiadau ledled Cymru nag erioed o'r blaen – o Ffeiriau'r Glas, i Sioe Frenhinol Cymru, i'n digwyddiad codi arian Big Walkies ym Mharc Bute, i stondinai stryd mewn trefi bychain – does yr un digwyddiad yn rhy fawr nac yn rhy fach i ni ymgysylltu'n arwyddocaol â chymunedau sy'n ymwneud â bywydau anifeiliaid yng Nghymru. Am y tro cyntaf, bu i RSPCA Cymru fynychu Pride Cymru, sef y prif ddigwyddiad yng Nghymru i ddathlu cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac ymwelodd bron i 1,000 o gefnogwyr â'n stondin mewn ychydig oriau.

Yn naturiol gohirwyd pob ymgyrchu yn ystod cyfnod yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai, ond er gwaethaf hyn, roedd 2016 yn flwyddyn brysur i ni. Comisynnodd Llywodraeth Cymru adroddiad<sup>4</sup> annibynnol ar ddefnyddio anifeiliaid gwylt mewn sircasau a sicrhodd ein tim o ymgynghorwyr gwyddonol fod y neges wedi'i derbyn nad yw sircas yn lle i anifeiliaid gwylt – rhywbeth y gwyddom y mae'r cyhoedd yn ei gefnogi'n gryf.

Eleni hefyd gwelwyd lansio ein hymgyrch i wahardd cadw mwnciod, a phrimatiaid eraill, fel anifeiliaid anwes. Yn rhan o'r ymgyrch cafwyd cyfweliad di-flewyn-ar-dafod â chyn-Aelod y Cynulliad, Lorraine Barrett, a siaraddodd am "gamgymeriad mwyaf [ei b]wyd" pan brynnod fwnci o siop anifeiliaid anwes, a'n bwriad yw mynd i'r afael â'r achos sylfaenol dros y creulondeb – sef pobl ddim yn gwybod beth maent yn ei ysgwyddo gyda'r bodau ymdeimladol a chymhleth hyn oherwydd nad yw primatiaid yn addas i fywyd mewn cartref domestig.



<sup>4</sup> [politicalanimal.org.uk/wp-content/uploads/2017/01/The\\_welfare\\_of\\_wild\\_animals\\_in\\_travelling\\_circuses.pdf](http://politicalanimal.org.uk/wp-content/uploads/2017/01/The_welfare_of_wild_animals_in_travelling_circuses.pdf)

## Gwobrau Ôl-traed Lles Anifeiliaid Cymunedol (CAWF) 2016



Heddlu De Cymru – Canmoliaeth Uchel (Arloeswr Cymru)



Cyngor Sir Fynwy – Aur (Cynlluniau Wrth Gefn)  
Cartref Cŵn Caerdydd (Cyngor Caerdydd) – Aur (Cŵn Strae)  
Cyngor Sir Ddinbych – Aur (Cŵn Strae)  
Cyngor Dinas Casnewydd – Aur (Cŵn Strae)  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Aur (Cŵn Strae)



Cyngor Sir Penfro – Arian (Cŵn Strae)  
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Arian (Cŵn Strae)

Enillwyd record o 16 gwobr gan 14 o gynghorau a chymdeithasau tai ledled Cymru, gyda Heddlu De Cymru yn cael canmoliaeth uchel yn y categori Arloeswr Cymru.



Cyngor Sir Penfro – Efydd (Trwyddedu Sefydliadau Anifeiliaid)  
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Efydd (Trwyddedu Sefydliadau Anifeiliaid)  
Cyngor Dinas Caerdydd – Efydd (Cynlluniau Wrth Gefn)  
Cartrefi Cymunedol Gwynedd – Efydd (Tai)  
Cymdeithas Tai Clwyd Alyn – Efydd (Tai)  
Cymdeithas Tai Merthyr Tudful – Efydd (Tai)  
Cartrefi Cymoedd Merthyr – Efydd (Tai)  
Cymdeithas Tai Rhondda – Efydd (Tai)  
Cyngor Sir Ynys Môn – Efydd (Cŵn Strae)

Ers 2008 mae'r gwobrau wedi cydnabod sefydliadau sy'n cyflawni safonau lles anifeiliaid uwch wrth ddarparu tai, trwyddedu sefydliadau anifeiliaid, cynllunio wrth gefn, a chŵn strae. Cyflwynwyd y gwobrau gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, mewn seremoni arbennig ym mis Hydref ac fe'u cefnogir gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Sefydliad Siartredig lechyd yr Amgylchedd a Sefydliad Siartredig Safonau Masnach.

### Gweithio dros newid

Yn dilyn refferendwm yr UE yn 2016, mae RSPCA Cymru wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y deddfau sy'n ymneud â lles anifeiliaid yn cael eu cynnal a'u gwella. Yn ystod ymchwiliad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar effaith gadael yr UE, cyflwynom dystiolaeth yn tynnu sylw at ddeddfwriaeth allweddol yr hoffem weld yn cael ei chadw. Roedd hyn yn cynnwys: y datganiad fod anifeiliaid yn fodau ymdeimladol yng Nghytuniaid Lisbon; y gofyniad i geffylau gael pasbortau; a symud anfasnachol ar anifeiliaid anwes. Mae'r RSPCA hefyd yn datblygu cynigion ar gyfer taliadau CAP diwygiedig i gynyddu a diogelu safonau lles anifeiliaid mewn amaethyddiaeth.

Ymatebodd RSPCA Cymru i ymgynghoriadau cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac awdurdodau lleol ar ystod o faterion sy'n effeithio ar les anifeiliaid. Gofynnodd nifer o gynghorau lleol am farn ar gyflwyno Gorchmylion Diogelu Mannau Cyhoeddus i'w gwneud yn drosedd peidio â chael dull o lanhau ar ôl eich ci. Fodd bynnag, mae cynghorau hefyd yn ystyried gwahardd cŵn o gaeau chwaraeon ac rydym yn pryderu y byddai hynny'n cyfyngu ar fedru gadael cŵn oddi ar eu tennyn. Cynigiodd Llywodraeth Cymru hefyd ddyletswydd newydd i'r Gwasanaethau Tân ac Achub, sef achub pobl mewn sefyllfaeoedd llifogydd. Gwnaethom hi'n glir yn ein hymateb i'r ymgynghoriad y dylai'r ddyletswydd hefyd gynnwys gofyniad i achub anifeiliaid.

Llofnododd cannoedd o bobl ymgyrch RSPCA Cymru yn cefnogi ein hymateb i'r ymgynghoriad yn dilyn lansio cynigion Llywodraeth Cymru i'w rhaglen ddiwygiedig i ddileu TB mewn gwartheg. Mae RSPCA Cymru yn parhau i gefnogi mesurau Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar wartheg ond mae'n dal yn bryderus mai annigonol yw'r sail wyddonol dros ladd poblogaethau moch daear fel modd o reoli'r clefyd mewn gwartheg. Rydym yn parhau i drafod y mater gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid a hyunny'n adlewyrchu natur ddifrifol y clefyd a'r ymdrechion i'w reoli. Mae'r RSPCA yn croesawu'r gostyngiadau a gyflawnwyd hyd yn hyn gyda bron i 500 yn llai o fuchesi o dan gyfyngiadau, o'i gymharu â'r brig yn 2009, a 95 y cant o fuchesi yn rhudd o'r TB erbyn diwedd 2016.

Yn ystod haf 2015 cafodd RSPCA Cymru gais gan weinidogion Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ffurfiol ar Berchnogaeth Gyfrifol ar Gŵn. Cafodd panel arbenigol ei ymgynnull gyda'r heddlu, awdurdodau lleol a Dogs Trust, ac yna ymgynghorwyd a grŵp estynedig o randdeiliaid drwy ymgynghoriad ysgrifenedig a sesiynau tystiolaeth lafar. Archwiliwyd y canfyddiadau a lluniwyd adroddiad<sup>5</sup> i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2016. Roedd cyfres o argymhellion yn cynnwys pob rhanddeiliad allweddol yn yr adroddiad, ac rydym yn awr yn aros am ymateb y Llywodraeth.

<sup>5</sup> politicalanimal.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Responsible-Dog-Ownership-Review-March-2016.pdf



## Ymgyrch Delphin – newyddion mawr

Cafwyd sylw eang iawn yn y cyfryngau i achub bron i 100 o gŵn bach ym Mhorthladd Caergybi yn oriau mân y bore, sef rhan o ymgyrch amlasantaeol dan arweiniad yr RSPCA a oedd yn taclo mewnforio anifeiliaid yn anghyfreithlon. Cafodd hyn sylw amlwg iawn yn The Times, y Sun, y Daily Mirror, y Daily Mail, y Daily Express, BBC World News, Newyddion BBC Cymru, Newyddion ITV News, Irish News, RTE, Seeker a llawer o gyhoeddwyr newyddion eraill. Yng Nghymru, ymddangosodd y stori ar dudalen flaen y Daily Post, a nifer o newyddion lleol eraill – gan gynnwys y South Wales Evening Post. Roedd y darlledu am y digwyddiad hwn yn 2016 wedi cynnwys Good Morning Britain ITV, rhaglen ddogfen BBC 3 The Cost of Cute: The Dark Side of the Puppy Trade, Watchdog y BBC, Radio 5 Live y BBC, BBC News a llawer o rai eraill. Dyma'r sylw mwyaf erioed y mae RSPCA Cymru wedi'i gael hyd yn hyn o ran darlledu ac yn y cyfryngau, ac mae wedi helpu i daflu goleuni ar y broblem fawr hon yn ymwneud â lles anifeiliaid.

# Cyfathrebu'r materion allweddol

Cyfleo ein neges i'r cyhoedd yw un o'r arfau pwysicaf sydd gennym i hyrwyddo gwaith yr RSPCA a negeseuon allweddol am les anifeiliaid. Bu i'r cyfryngau yn lleol, ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig, ac yn rhwngwladol barhau i gymryd diddordeb dwys yng ngweithgareddau RSPCA Cymru drwy gydol 2016 ac, yn gyffredinol, mewn materion yn ymwnus â lles anifeiliaid. Mae hyn yn adlewyrchu lefel uchel y diddordeb sydd gan y cyhoedd a chymdeithas yn gyffredinol. Mae cyfathrebu allanol yn parhau i fod yn holbwysig i ni, ac mae RSPCA Cymru yn falch o'i berthynas â'r cyfryngau ar bob lefel.

**Soniwyd am waith RSPCA Cymru  
663 o weithiau yn y cyfryngau yn  
2016 – cynnydd o fwy na 23 y cant.<sup>6</sup>**

## Sylw yn y wasg

Yn 2016, cyhoeddwyd tua 160 o ddatganiadau i'r wasg oedd yn rhagweithiol, a channoedd o rai adweithiol. Cofnododd dadansoddiad annibynnol<sup>6</sup> fod 663 sylw wedi bod yn y cyfryngau yn sôn am RSPCA Cymru yn 2016, sef cynnydd o 23.4 y cant ar y flwyddyn galendr flaenorol. Fodd bynnag, o ystyried yr anhawster sydd ynglwm â chofnodi sylw yn y cyfryngau yn gywir, credir bod modfeddi'r sylw a gafodd RSPCA Cymru yn ystod 2016 yn llawer uwch. Roedd y sylw a gafwyd yn 2016 yn amrywio o'r wasg leol iawn, i swyddfeydd newyddion mawr, gan gynnwys Mail on Sunday, CBBC Newsround, MSN News, BT News a llawer o rai eraill.

## Darlledu

Mae perthynas RSPCA Cymru â darlledwyr yn lleol, ar lefel Cymru a lefel y Deyrnas Unedig yn parhau i ddatblygu, a thrwy gydol 2016 denodd ein gwaith gryn sylw ar y teledu a'r radio. Rhoddwyd cyfweliadau i BBC Cymru/Wales, ITV News, Made in Cardiff TV ac eraill, yn ogystal ag i amryw o orsafoedd radio lleol a chenedlaethol. Mae RSPCA Cymru hefyd yn falch o weithio'n agos â darlledwyr yn y Gymraeg, a sylw wedi'i gael trwy gydol y flwyddyn gan S4C a BBC Radio Cymru. Mae RSPCA Cymru hefyd wedi gweithio'n helaeth gyda thîm Week In, Week Out y BBC ar y gwaith o ddatblygu rhaglen ddogfen arobrynn yn ymwnus â'r ymgrych yn galw am reoleiddio sefydliadau a llochesau lles anifeiliaid.

## Gwefan Political Animal

Mae gwefan Political Animal RSPCA Cymru yn gyfrwng hanfodol wrth gyfathrebu gweithgareddau materion cyhoeddus yr RSPCA gydag Aelodau'r Cynulliad, awdurdodau lleol a rhan-deiliaid gwleidyddol allweddol eraill. Mae'r wefan yn dal i fod yn adnodd sy'n arwain y sector ar gyfer gwleidyddion, staff, pleidiau gwleidyddol ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn iddynt gael gwybodaeth allweddol, newyddion a deunydd arall sy'n gysylltiedig â'u gwaith. Mae'r cynnwys yn parhau i lywio'r gwaith o lunio cwestiynau a dadleuon gwleidyddol, ac mae'n ganllaw defnyddiol ar gyfer ymholabau gwaith achos. Mae'r wefan yn cynnwys atebion i ymgynghoriadau, sesiynau briffio, taflenni feithiau a bwletinau i'r cyfryngau.



## Y cyfryngau cymdeithasol

Mae sianelau pwrrpasol RSPCA Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i dyfu ac yn cynnig llwybrau hanfodol i roi gwybodaeth, cyngor a rhagor i'n cefnogwyr, a'r cyhoedd, ac i gael cysylltiad uniongyrchol â nhw. Facebook yn dal yw'r cyfrwng mwyaf poblogaidd ar y cyfryngau cymdeithasol i'r cyhoedd ymgysylltu â RSPCA Cymru, a thyfodd ein sianel yn sylweddol yn ystod 2016 – gan orffen y flwyddyn gyda bron i 7,500 yn ei 'hoffi', ac felly wedi sicrhau twf blynnyddol o 63 y cant. Mae postiadau yn rheolaidd yn cyrraedd degau o filoedd o ddefnyddwyr ac oedd y fideo o achub y cŵn bach rhag mewnforio anghyfreithlon wedi cyrraedd 98,400 o unigolion. Yn y cyfamser, roedd apêl am wybodaeth am gi wedi'i adael wedi'i glymu i reiliao ym Merthyr Tudful wedi cyrraedd dros 109,000 o bobl – sef bron i ddwywaith poblogaeth y dref. Mae'r dudalen hefyd yn arf addysgol a hwylig ac roedd pos adeg y Nadolig wedi cyrraedd y nifer uchaf erioed o 247,000 o bobl trwy sianel RSPCA Cymru ar ei ben ei hun. Roedd Twitter, hefyd, yn llwyfan allweddol i hyrwyddo negeseuon lles anifeiliaid ac yn 2016 cynhyrchedd cyfrif @RSPCACymru 760,000 o argraffiadau. Mae RSPCA Cymru yn golygu lluniau fideo yn fewnol i gyflwyno'r prif negeseuon am les anifeiliaid, ac rydym unwaith eto wedi gweithio gyda Choleg Merthyr Tudful ar gynhyrchu ffilm arbenigol, a oedd, ar gyfer 2016, yn edrych yn fanwl ar waith rheng flaan arolygwyr yr RSPCA.

<sup>6</sup> Canfuwyd y data drwy ddefnyddio cronna ddata Meltwater i chwilio am erthyglau ar-lein gan gyfryngau amrywiol, a oedd yn cyfeirio at RSPCA Cymru neu'r RSPCA yng Nghymru rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2016.

# Helpwch ni a dewch yn Rhan

## RHOWCH YN HAEL

Gallwch ein cefnogi drwy roi rhodd gyson drwy ddebyd uniongyrchol. Mae hyn yn golygu y gallwn ddibynnu ar eich cefnogaeth a chynllunio yn fwy effeithiol, ewch i: [www.rspca.org.uk/donate](http://www.rspca.org.uk/donate) a gweld pam fod pob ceiniog yn cyfrif.

Os hoffech helpu'r RSPCA, gallwch roi £3 nawr drwy yr yrru neges yn dweud HELP i 78866 (mae negeseuon yn costio £3 + pris arferol gyrru neges ar eich rhwydwaith)

Dewch yn Noddwr yr RSPCA, ewch i: [www.rspca.org.uk/sponsor](http://www.rspca.org.uk/sponsor)

Llanwch ddatganiad Cymorth Rhodd os ydych yn talu trethi yn y Deyrnas Unedig a byddwch yn cynyddu eich rhodd 25 y cant ar ddim cost ychwanegol i chi.

Ewch i: [www.rspca.org.uk/getinvolved/donate/advice/giftaid](http://www.rspca.org.uk/getinvolved/donate/advice/giftaid) i gael rhagor o wybodaeth.

## RHODD YN EICH EWYLLYS

A wyddech chi fod mwy na 50 y cant o'n gwaith yn amddiffyn anifeiliaid bregus yn cael ei ariannu gan roddion y mae pobl yn garedig iawn wedi'u gadael i ni yn eu hewyllys? Mae'r haelioni o adael rhodd yn eich ewyllys yn golygu y byddwch yn helpu i amddiffyn anifeiliaid rhag creulondeb am gyfnod hir i'r dyfodol. Cysylltwch â'n Tim Cymroedd ar: 0300 123 0239 i ofyn am gael copi am ddim o'r Canllaw Ewillys, neu anfonwch e-bost at: [giftsinwills@rspca.org.uk](mailto:giftsinwills@rspca.org.uk) neu ewch i: [www.rspca.org.uk/giftsinwills](http://www.rspca.org.uk/giftsinwills)

## CYMERWCH RAN MEWN DIGWYDDIAD AC/NEU CODWCH ARIAN I NI

Boed chi am drefnu bore coffi neu ddringo Kilimanjaro, gallwn eich cefnogi. Dylai codi arian fod yn hwyl – beth am ofyn i'ch cyflogwr gyfateb faint bynnag rydych yn ei godi neu hyd yn oed roi rhodd i chi? Cofiwch, nid oes raid i chi gymryd rhan mewn digwyddiad i godi arian i ni, gallwch fanteisio ar rywbeth sy'n bodoli eisoes – a yw eich tafarn leol eisoes yn cynnal cwis? A fyddant yn fodlon rho'i'r derbyniadau neu elw i chi? Gofynnwch i'ch Clwb Rotari, Merched y Wawr neu Glwb Llewod lleol i annog eu haelodau i gymryd rhan mewn digwyddiad ar ein rhan. I gael rhagor o wybodaeth am ein digwyddiadau a syniadau codi arian, gyrrwch e-bost atom i: [fundraisers-support@rspca.org.uk](mailto:fundraisers-support@rspca.org.uk)

## GWNEWCH RYWBETH

Rhowch gartref neu maethwch anifail o un o'n canolfannau neu ganghennau, ewch i: [www.rspca.org.uk/findapet](http://www.rspca.org.uk/findapet)

Gwirfoddolwch i ni, ewch i: [www.rspca.org.uk/volunteer](http://www.rspca.org.uk/volunteer) i weld rhai o'r cyfleoedd yr ydym yn reciriwtio iddynt ar hyn o bryd. Rydym yn chwilio yn benodol am Siaradwyr Gwirfoddol i fynd i ysgolion: [www.rspca.org.uk/volunteerspeaker](http://www.rspca.org.uk/volunteerspeaker) – gweler y dudalen hon am ragor o fanylion.

## YN EICH ARDAL

Mae canghennau lleol yr RSPCA wedi'u rhedeg gan ymddiriedolaethau gwirfoddol sy'n dylanwadu ar sut rydym yn gofalu am anifeiliaid ac yn atal creulondeb iddynt yn lleol. Mae rhagor o wybodaeth yngylch dod yn ymddiriedolwr cangen i'w chael yn: [www.rspca.org.uk/branchtrustee](http://www.rspca.org.uk/branchtrustee)

Edrychwch beth rydym yn ei wneud yng Nghymru: [www.rspca.cymru](http://www.rspca.cymru)

## GWARIWCH A CHYNILWCH

Prynwch yswiriant anifeiliaid anwes MORE TH>N – rydym yn cael rhodd am bob polisi sy'n cael ei werthu, ewch i: [www.rspca.org.uk/petinsurance](http://www.rspca.org.uk/petinsurance)

Prynwch roddion ac anrhegion elusennol, bwyd ac ategolion yr RSPCA i anifeiliaid o'n Siop ar-lein, ewch i: [www.shop.rspca.org.uk](http://www.shop.rspca.org.uk)

Chwiliwch am label lles uwch RSPCA Assured ar gynnrych bwyd wrth siopa a bwyta allan, ewch i: [www.rspcaassured.org.uk/where-to-buy/map](http://www.rspcaassured.org.uk/where-to-buy/map) i weld ble i siopa.

Gofynnwch i'ch archfarchnad stocio'r cynnyrch bwyd lles uwch RSPCA Assured yr ydych am eu prynu: [www.rspcaassured.org.uk/get-involved/lobby-your-supermarket](http://www.rspcaassured.org.uk/get-involved/lobby-your-supermarket)

Archebwch wyliau bwthyn a byddwn yn cael 10 y cant o'r archeb, ewch i: [www.chooseacottage.co.uk/rca](http://www.chooseacottage.co.uk/rca) neu ffoniwch: 0345 268 8714.

## BYDDWCH YN GYMDEITHASOL

Dilynwch ni ar Facebook: [www.facebook.com/RSPCAcymru](https://www.facebook.com/RSPCAcymru)

Dilynwch ni ar Twitter: [www.twitter.com/RSPCAcymru](https://www.twitter.com/RSPCAcymru)

Gwylwch ein ffilmiau ar: [www.youtube.com/RSPCAcymru](https://www.youtube.com/RSPCAcymru)

Mae eich rhoddion hael mewn amser, arian a chymorth yn golygu y gallwn gynllunio ymlaen llaw ac ystyried yn fanwl y ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau er lles anifeiliaid.

## CHWARAEWCH

Chwaraewch Loteri Wythnosol yr RSPCA a chodi arian i anifeiliaid ar yr un pryd, ewch i: [www.rspca.org.uk/lottery](http://www.rspca.org.uk/lottery)

## YMGYRCHWCH DROSOM

Rydym yn ymgyrchu i wneud y byd yn lle gwell i anifeiliaid. Gwnewch rywbeth a helpwch ni drwy fynd i: [www.rspca.cymru/campaigns](http://www.rspca.cymru/campaigns)

## EWCH YN WYRDD

Ewch ag unrhyw nwyddau nad ydych eu heisiau i un o 300+ o siopau elusen yr RSPCA, ewch i: [www.rspca.org.uk/inyourarea](http://www.rspca.org.uk/inyourarea) i gael hyd i'ch siop agosaf.

Gallwch aigylchu cetris inc er budd yr RSPCA. Ffoniwch 0800 091 0696 neu ewch i: [www.therecyclingfactory.com/rspca](http://www.therecyclingfactory.com/rspca)

Ailgylchwr gemwaith wedi torri ac nad ydych eu heisiau, papurau arian y wlad hon neu dramor, stampiau, ffonau symudol a theclynnau. Ffoniwch: 0800 633 5323 neu ewch i: [www.recyclingforgoodcauses.org/rspca](http://www.recyclingforgoodcauses.org/rspca)

## YMUNWCH Â NI

I ymuno â'r RSPCA, ewch i: [www.rspca.org.uk/joinus](http://www.rspca.org.uk/joinus)

Gall plant 8-12 oed danygrifio i'r cylchgrawn animal action. Ewch i: [www.rspca.org.uk/theclub](http://www.rspca.org.uk/theclub)

Neu i bobl ifanc yn eu harddegau: <https://young.rspca.org.uk/teens>

Mae Gwobrau Ffotograffwyr Ifanc yr RSPCA yn agored i unrhyw un sy'n 18 oed neu'n iau. Nod y gystadleuaeth yw annog diddordeb pobl ifanc mewn ffotograffiaeth ynglyd â'u gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth o'r anifeiliaid o'u cwmpas. Ewch i: [www.rspca.org.uk/ypa](http://www.rspca.org.uk/ypa) i weld lluniau enillwyr y gorffennol a sut i ymgeisio yn 2017.

## BWYDWCH EICH ANIFEILIAID ANWES

Prynwch fwyd anifeiliaid anwes yr RSPCA i'ch cathod, cŵn, moch cwta a chwningod – mae'r bwyd hwn wedi'i gynllunio gan arbenigwyr. Mae'r bwyd i gathod a chŵn yn 'gyflawn', sy'n golygu eu bod yn cynnwys popeth sydd ei angen ar eich anifeiliaid anwes i'w cadw'n iach. Ewch i: [shop.rspca.org.uk/pet-food](http://shop.rspca.org.uk/pet-food)

### Llun y clawr: RSPCA Cymru

Cymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid – Cymru  
6, Cae Gwydd, Parc Busnes Greenmeadow Spring, Caerdydd CF15 7AB  
0300 1234 999 [www.rspca.cymru](http://www.rspca.cymru) [www.politicalanimal.wales](http://www.politicalanimal.wales)

 [facebook.com/RSPCAcymru](https://facebook.com/RSPCAcymru)  [@RSPCAcymru](https://twitter.com/RSPCAcymru)  [youtube.com/RSPCAcymru](https://youtube.com/RSPCAcymru)

Mae'r RSPCA yn helpu anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Elusen gofrestredig rhif: 219099.  
Drwy roddion y cyhoedd yn unig y mae'r RSPCA yn bodoli.

Hawlfraint © 2017 RSPCA. Cedwir pob hawl. Ni chanateir atgynhyrchu na defnyddio'r deunydd hwn mewn unrhyw fodd o gwbl heb ganiatâd ysgrifenedig penodol yr RSPCA i wneud hynný.

Argraffwyd ar ddeunydd wedi'i aigylchu 100% yn defnyddio prosesau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd